**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mawrth, 6ed Mawrth, 2018 at 10.00 am**

| | |
|---|---|
| **PRESENT:** | County Councillor M. Powell (Chairman)<br>County Councillor (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: D. Batrouni, V. Smith, D. Dovey, A. Easson, D. Evans, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, L. Guppy, R. Harris, J. Higginson, G. Howard, S. Howarth, D. Jones, P. Jones, S. Jones, S.B. Jones, P. Jordan, P. Murphy, B. Strong, F. Taylor, A. Webb, K. Williams, L.Brown, A.Davies, M.Feakins, M.Groucutt, R.John, L.Jones, M.Lane, P.Pavia, J.Pratt, R.Roden, T.Thomas, J.Treharne, J.Watkins and S. Woodhouse |

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Kellie Beirne | Deputy Chief Executive |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| Roger Hoggins | Head of Operations |
| Will Mclean | Chief Officer for Children and Young People |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |

**APOLOGIES:**

County Councillors D. Blakebrough, P. Clarke, R. Edwards, A. Watts, J.Becker and L.Dymock

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw faterion ar gyfer y fforwm agored i'r cyhoedd.

3. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd a Derbyn Deisebau**

Cymeradwyodd Aelodau'r staff, y contractwyr a'r gwirfoddolwyr am eu hymdre3chion yn ystod cyfnod yr eira trwm.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sara Jones ddeiseb wedi'i llofnodi gan 684 o breswylwyr ardal Severside yn annog CSF i ddarparu llwybr troed rhwng Gwndy a Rogiet i ganiatáu cymudo diogel ar gyfer y cyhoedd.

4. **Datganiadau o Fuddiant**

Cymeradwyodd Aelodau'r staff, y contractwyr a'r gwirfoddolwyr am eu hymdre3chion yn ystod cyfnod yr eira trwm.

Cyflwynodd y Cynghorydd Sara Jones ddeiseb wedi'i llofnodi gan 684 o breswylwyr ardal Severside yn annog CSF i ddarparu llwybr troed rhwng Gwndy a Rogiet i ganiatáu cymudo diogel ar gyfer y cyhoedd.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mawrth, 6ed Mawrth, 2018 at 10.00 am

### 5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Ionawr 2018

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 18fed Ionawr 2018 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

### 6. Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod Eithriadol a gynhaliwyd ar 15fed Chwefror 2018

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 15 fed Chwefror 2018 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

### 7. Nodi Rhestr Weithredu'r Cyngor Sir

Nodwyd y rhestr weithredu.

Darparwyd adborth oddi wrth y grŵp gorchwyl Tlodi Cyfnod.

### 8. Adroddiadau'r Prif Swyddog, Adnoddau:

#### 8.1. Datganiad Polisi Rheolaeth y Trysorlys; Datganiad Strategaeth gan gynnwys Datganiad MRP a Strategaeth Fuddsoddi a Dangosyddion Darbodus 2018/19 yn ogystal

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i osod polisïau a strategaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 sy'n cynnwys gweithgareddau benthyca trysorlys a benthyca darbodus y mae'n rhaid i weithwyr y Cyngor lynu atynt. Mae hyn i sicrhau y cymerir lefel briodol o ofal o gronfeydd yr Awdurdod ac y gosodir cyllideb ddarbodus i gwmpasu'r gweithgareddau hyn.

Yn ystod dadl codwyd y pwyntiau canlynol:

Gofynnwyd am eglurhad o gwmpas y risgiau ariannol yn y dyfodol a chwestiynwyd a oedd y wybodaeth a ddarparwyd yn gywir. Ymatebodd yr Aelod Cabinet y dywedir bob amser bod risg gyda derbyniadau cyfalaf gan y gall ffactorau allanol benderfynu pryd y derbynnir derbyniadau allanol. Cynhelid trafodaeth bellach ar ddiwedd y cyfarfod mewn pwyllgor.

**Penderfynodd y Cyngor gytuno'r argymhellion:**

**Bod Datganiad Polisi Rheolaeth arfaethedig y Trysorlys ar gyfer 2018/19 (Atodiad 1); a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig ar gyfer 2018/19 (Atodiad 2) gan gynnwys y Strategaeth Buddsoddi a Benthyca a Datganiad Polisi'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) yn Atodiad C,** <u>yn cael eu cymeradwyo ynghyd â Chyfyngiadau'r Trysorlys fel sy'n ofynnol gan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.</u>

**I gymeradwyo'r defnydd o Ddangosyddion Darbodus a ddarparwyd (rhestr ddrafft lawn yn Atodiad 3) ym monitro perfformiad y swyddogaeth yn ystod 2018-19.**

**Mae'r Pwyllgor Archwilio yn dal i fonitro gweithgareddau Trysorlys y Cyngor ar ran y Cyngor drwy dderbyn yr adroddiad ar ganol blwyddyn a'r adroddiad ar ddiwedd blwyddyn.**

#### 8.2. Penderfyniadau Treth y Cyngor 2018/19 a'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2018/19

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Benderfyniad Treth y Cyngor 2018/19 a'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2018/19. Mae'r Cyngor yn rhwym gan Statud i derfynau amser penodol ar

gyfer gosod Treth y Cyngor ac mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor wneud penderfyniadau diffiniedig penodol. Mae'r argymhellion sy'n ffurfio rhan helaethaf yr adroddiad hwn wedi'u dylunio i gydymffurfio â'r Darpariaethau Statudol hynny. Mae'r penderfyniadau a argymhellir hefyd yn tynnu ynghyd oblygiadau'r praeseptau, a gynigir gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent a phraeseptau'r Cynghorau Tref a Chymuned, ar Dreth y Cyngor, gan felly alluogi'r Cyngor Sir i sefydlu'i brif lefelau Treth y Cyngor ar yr amrywiol fandiau eiddo o fewn pob ardal Tref a Chymuned.

Dywedodd yr wrthblaid mai'r ysgolion a wynebai ben trymaf y toriadau a bod 50% o'r cynigion newydd yn ymwneud â phlant neu addysg mewn rhyw ffurf. f

Awgrymwyd y gellid codi symiau sylweddol o arian drwy godi premiwm ar ail gartrefi a adawyd yn wag am chwe mis. Gallai hyn o bosib ymwneud â 4500 o dai gwag ar draws Sir Fynwy a gallai o bosib godi £200,000. Byddai angen blwyddyn o ymgynghori ar y broses hon a gellid ei chynnwys yng nghyllideb 2019/20.

Deallwyd bod swyddogion yn disgwyl am gynnig.

Cynigiodd y Cynghorydd Batrouni welliant, i weithredu:

1. Premiwm o 150% ar ail gartrefi
2. Codi Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn o £50,000
3. Cael gwared ar y ffioedd ar gyfer prydau ysgol am ddim
4. Gosod £5000 o'r neilltu ar gyfer tlodi cyfnod

Eiliwyd y gwelliant a chafwyd dadl.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Batrouni am y gwelliant a gofynnodd am fwy o wybodaeth ynghylch Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

Byddai £5,000 yn cael ei osod o'r neilltu ar gyfer tlodi cyfnod petai hynny'n gasgliad gan y gweithgor.

Ystyriwyd ei bod yn rhy hwyr i gefnogi'r gwelliannau, heb yr amser i roi ystyriaeth iddynt. .

Cydnabuwyd yr anawsterau o gwmpas gofal plant cyn ysgol ac awgrymwyd asesiad 3 mis i ddynodi effaith.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y gwelliant. Trechwyd y gwelliant.

Yn dilyn cafwyd dadl ar yr argymhelliad gwreiddiol:

Mynegwyd siom ynghylch y toriadau i'r gyllideb Priffyrdd. Dangosai digwyddiadau diweddar effeithioldeb y gwasanaethau.

Diolchodd Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol i'r swyddogion am y gyllideb gytbwys a chydnabu'r pwysau a'r heriau. Gofynnodd am fwy o fonitro'r gyllideb yn y dyfodol a bod diweddariadau'n cael eu darparu er mwyn galluogi'r Cyngor i weithredu'n rhagweithiol.

Roedd pryderon ynghylch y broses ymgysylltu a gobeithid y byddai'r strategaeth yn cael ei hadolygu'r flwyddyn ddilynol.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mawrth, 6ed Mawrth, 2018 at 10.00 am

Gofynnwyd i'r cynnydd yn ffioedd y clwb brecwast gael ei fonitro a mynd i'r afael ag ef petai effaith sylweddol. .

Gadawodd y Cynghorydd Sir R. Greenland y cyfarfod am 12:00

Mewn ymateb i gwestiwn, mae grantiau'r Pwyllgorau Ardal yn dal ar gael, yn ddibynnol ar ganlyniad adolygiad Bryn Y Cwm

Cyflwynir monitro'r cynigion i'r Pwyllgor Craffu yn yr Adroddiadau Alldro.

**O'i roddi i bleidlais cariwyd yr argymhelliad. Pleidleisiodd holl Aelodau'r Grŵp Llafur yn erbyn yr argymhelliad:**

- Bod yr amcangyfrifon refeniw a chyfalaf ar gyfer y flwyddyn 2018/19, fel yr atodir hwy yn Atodiad 1 a 2, yn cael eu cymeradwyo.

- Ei fod yn cael ei nodi, yn ei gyfarfod ar 28ain Chwefror 2018, cyfrifodd y Cabinet y symiau a amlinellir isod ar gyfer y flwyddyn 2018/19 yn unol ag adrannau 32 a 33 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("y Ddeddf"). Er gwybodaeth, cafodd Adrannau 32 a 33 o Ddeddf 1992 eu diwygio'n sylweddol gan Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Diwygiwyd y ddwy ymhellach gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2002 ("rheoliadau 2002") a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2013. Caiff Adran 33 ei diwygio ymhellach gan Orchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cyfrifo Swm Sylfaenol Treth y Cyngor) (Cymru)1996. Rhoddwyd ystyriaeth i'r holl ddiwygiadau deddfwriaethol a statudol wrth gyfrifo'r symiau canlynol : -

(a) 45,887.85 yw'r swm a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33 o'r Ddeddf a'r Rheoliadau (fel y diwygiwyd hwy gan Reoliadau 1999 rhif. 2935), fel Sylfaen Treth y Cyngor am y flwyddyn;
(b) Rhan o Ardal y Cyngor, sef y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34 o'r Ddeddf, fel symiau Sylfaen Treth y Cyngor am yn flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol:

| Community | Council Tax Base for 2018/19 | Community | Council Tax Base for 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Abergavenny | 4,872.31 | Llanhennock | 286.33 |
| Caerwent | 1,115.51 | Llanover | 815.40 |
| Caldicot | 3,973.42 | Llantillio Croesenny | 461.67 |
| Chepstow | 5,499.57 | Llantillio Pertholey | 1,623.77 |
| Crucorney | 748.58 | Llantrissant Fawr | 258.36 |
| Devauden | 650.27 | Magor with Undy | 2,900.56 |
| Goetre Fawr | 1,205.49 | Mathern | 615.73 |
| Grosmont | 508.59 | Mitchell Troy | 745.66 |
| Gwehelog Fawr | 299.67 | Monmouth | 5,168.63 |
| Llanarth | 494.12 | Portskewett | 1,024.05 |
| Llanbadoc | 473.66 | Raglan | 1,088.34 |
| Llanelly Hill | 1,983.30 | Rogiet | 740.30 |
| Llanfoist Fawr | 1,985.14 | Shirenewton | 759.52 |
| Llangattock Vibon Abel | 678.18 | St.Arvans | 468.02 |
| Llangwm | 274.42 | Tintern | 502.73 |
| Llangybi | 549.45 | Trellech | 1,716.19 |
| | | Usk | 1,400.91 |
| | | **Total** | **45,887.85** |

- Bod y symiau canlynol nawr yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor am y flwyddyn 2018/19 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf ac Adrannau 47 a 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (fel y'i diwygiwyd):

(a) £152,920,291 yw'r cyfanswm ar gyfer amcangyfrifon y Cyngor ar gyfer yr eitemau a amlinellir yn Adran 32(2) (a) i (ch) o'r Ddeddf llai cyfanswm y symiau mae'r Cyngor yn amcangyfrif ar gyfer yr eitemau a amlinellir yn Adran 32 (3) (a) ac (c) o'r Ddeddf a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel gofyniad ei gyllideb am y flwyddyn
(b) £93,268,176 yw cyfanswm y symiau mae'r Cyngor yn amcangyfrif a fydd yn daladwy am y flwyddyn i mewn i'w gronfa mewn perthynas ag ardrethi annomestig a ail-ddosberthir grant cynnal refeniw yn unol ag Adran 33 (3)
(c) £6,000 yw'r gost i'r awdurdod o'r rhyddhad ardrethi annomestig dewisol y rhagwelir y byddant yn cael eu caniatáu (dan Adrannau 47 a 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, (fel y'i diwygiwyd)
(ch) £1,300.09 yw'r swm yn 2.3(a) a 2.3(c) uchod llai'r swm yn 2.3(b) uchod, y cyfan yn cael ei rannu gyda'r swm yn 2.2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth y Cyngor am y flwyddyn
(d) £2,676,418 yw swm cyfanredol yr holl eitemau arbennig y cyfeiriwyd atynt yn Adran 34 o'r Ddeddf (Praeseptau Tref a Chymuned)
(dd) £1,241.76 yw'r swm yn 2.3(ch) uchod llai y canlyniad a gafwyd drwy rannu'r swm yn 2.2(a) uchod a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) o'r Ddeddf, fel y symiau sylfaenol o Dreth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal nad oes unrhyw eitemau arbennig yn berthnasol
(e) Rhan o Ardal y Cyngor, sef symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig yn berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a grybwyllwyd uchod yn cael eu rhannu ym mhob achos gan y symiau yn 2.2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel y symiau sylfaenol o Dreth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal y mae un neu fwy o'r eitemau arbennig yn berthnasol:

| Community Council | Precept Band D Equivalent £'s | Community Council | Precept Band D Equivalent £'s |
|---|---|---|---|
| Abergavenny | 75.30 | Llanover | 14.10 |
| Caerwent | 43.03 | Llantillio Croesenny | 13.00 |
| Caldicot | 91.70 | Llantillio Pertholey | 29.75 |
| Chepstow | 115.11 | Llantrissant Fawr | 20.13 |
| Crucorney | 18.70 | Magor with Undy | 69.14 |
| Devauden | 12.55 | Mathern | 28.91 |
| Goetre Fawr | 25.72 | Mitchell Troy | 16.09 |
| Grosmont | 11.80 | Monmouth | 67.74 |
| Gwehelog Fawr | 15.02 | Portskewett | 29.30 |
| Llanarth | 14.17 | Raglan | 33.93 |
| Llanbadoc | 28.56 | Rogiet | 62.52 |
| Llanelly Hill | 46.45 | Shirenewton | 27.60 |
| Llanfoist Fawr | 32.74 | St.Arvans | 25.58 |
| Llangattock Vibon Abel | 13.71 | Tintern | 30.04 |
| Llangwm | 16.40 | Trellech | 20.39 |
| Llangybi | 18.20 | Usk | 103.97 |
| Llanhennock | 19.56 | | |

(f) Ardal y Cyngor, sef y symiau a gafwyd drwy luosi'r swm yn 2.3(dd) uchod gan y rhif, sydd, yn y gyfradd a amlinellir yn Adran 5(1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisio penodol yn cael ei rannu â'r rhif sydd yn y gyfradd honno yn berthnasol i'r anheddau a restrir
ym Mand D a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried am y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau o anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisio.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mawrth, 6ed Mawrth, 2018 at 10.00 am**

| Council Tax Band | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Proportion | 6 | 7 | 8 | 9 | 11 | 13 | 15 | 18 | 21 |
| Council Tax Charge | 827.84 | 965.81 | 1,103.79 | 1,241.76 | 1,517.71 | 1,793.65 | 2,069.60 | 2,483.52 | 2,897.44 |

(ff) Rhan o Ardal y Cyngor, sef y symiau a gafwyd drwy luosi'r symiau yn 2.3(e) ac 2.3(f) uchod gan y rhif, sydd, yn y gyfradd a amlinellir yn Adran 5(1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisio penodol yn cael ei rannu â'r rhif sydd yn y gyfradd honno yn berthnasol i'r anheddau a restrir ym Mand D a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried am y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau o anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisio: -

**County Council plus Town/Community Council**

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergavenny | 878.04 | 1,024.38 | 1,170.72 | 1,317.06 | 1,609.74 | 1,902.42 | 2,195.10 | 2,634.12 | 3,073.14 |
| Caerwent | 856.53 | 999.28 | 1,142.04 | 1,284.79 | 1,570.30 | 1,855.80 | 2,141.32 | 2,569.58 | 2,997.84 |
| Caldicot | 888.97 | 1,037.13 | 1,185.30 | 1,333.46 | 1,629.79 | 1,926.11 | 2,222.43 | 2,666.92 | 3,111.41 |
| Chepstow | 904.58 | 1,055.34 | 1,206.11 | 1,356.87 | 1,658.40 | 1,959.92 | 2,261.45 | 2,713.74 | 3,166.03 |
| Crucorney | 840.31 | 980.35 | 1,120.41 | 1,260.46 | 1,540.57 | 1,820.66 | 2,100.77 | 2,520.92 | 2,941.07 |
| Devauden | 836.21 | 975.57 | 1,114.95 | 1,254.31 | 1,533.05 | 1,811.78 | 2,090.52 | 2,508.62 | 2,926.72 |
| Goetre | 844.99 | 985.81 | 1,126.65 | 1,267.48 | 1,549.15 | 1,830.80 | 2,112.47 | 2,534.96 | 2,957.45 |
| Grosmont | 835.71 | 974.99 | 1,114.28 | 1,253.56 | 1,532.13 | 1,810.69 | 2,089.27 | 2,507.12 | 2,924.97 |
| Gwehelog | 837.85 | 977.49 | 1,117.14 | 1,256.78 | 1,536.07 | 1,815.35 | 2,094.63 | 2,513.56 | 2,932.49 |
| Llanarth | 837.29 | 976.83 | 1,116.39 | 1,255.93 | 1,535.03 | 1,814.12 | 2,093.22 | 2,511.86 | 2,930.50 |
| Llanbadoc | 846.88 | 988.02 | 1,129.18 | 1,270.32 | 1,552.62 | 1,834.90 | 2,117.20 | 2,540.64 | 2,964.08 |
| Llanelly Hill | 858.81 | 1,001.94 | 1,145.08 | 1,288.21 | 1,574.48 | 1,860.74 | 2,147.02 | 2,576.42 | 3,005.82 |
| Llanfoist | 849.67 | 991.27 | 1,132.89 | 1,274.50 | 1,557.73 | 1,840.94 | 2,124.17 | 2,549.00 | 2,973.83 |
| Llangattock V A | 836.98 | 976.47 | 1,115.98 | 1,255.47 | 1,534.47 | 1,813.45 | 2,092.45 | 2,510.94 | 2,929.43 |
| Llangwm | 838.77 | 978.57 | 1,118.37 | 1,258.16 | 1,537.75 | 1,817.34 | 2,096.93 | 2,516.32 | 2,935.71 |
| Llangybi | 839.97 | 979.97 | 1,119.97 | 1,259.96 | 1,539.95 | 1,819.94 | 2,099.93 | 2,519.92 | 2,939.91 |
| Llanhennock | 840.88 | 981.02 | 1,121.18 | 1,261.32 | 1,541.62 | 1,821.90 | 2,102.20 | 2,522.64 | 2,943.08 |
| Llanover | 837.24 | 976.78 | 1,116.32 | 1,255.86 | 1,534.94 | 1,814.02 | 2,093.10 | 2,511.72 | 2,930.34 |
| Llantillio Croess | 836.51 | 975.92 | 1,115.35 | 1,254.76 | 1,533.60 | 1,812.43 | 2,091.27 | 2,509.52 | 2,927.77 |
| Llantillio Pertholey | 847.67 | 988.95 | 1,130.23 | 1,271.51 | 1,554.07 | 1,836.62 | 2,119.18 | 2,543.02 | 2,966.86 |
| Llantrissant | 841.26 | 981.47 | 1,121.68 | 1,261.89 | 1,542.31 | 1,822.73 | 2,103.15 | 2,523.78 | 2,944.41 |
| Magor with Undy | 873.93 | 1,019.59 | 1,165.25 | 1,310.90 | 1,602.21 | 1,893.52 | 2,184.83 | 2,621.80 | 3,058.77 |
| Mathern | 847.11 | 988.30 | 1,129.49 | 1,270.67 | 1,553.04 | 1,835.41 | 2,117.78 | 2,541.34 | 2,964.90 |
| Mitchell Troy | 838.57 | 978.32 | 1,118.09 | 1,257.85 | 1,537.38 | 1,816.89 | 2,096.42 | 2,515.70 | 2,934.98 |
| Monmouth | 873.00 | 1,018.50 | 1,164.00 | 1,309.50 | 1,600.50 | 1,891.50 | 2,182.50 | 2,619.00 | 3,055.50 |
| Portskewett | 847.37 | 988.60 | 1,129.83 | 1,271.06 | 1,553.52 | 1,835.97 | 2,118.43 | 2,542.12 | 2,965.81 |
| Raglan | 850.46 | 992.20 | 1,133.95 | 1,275.69 | 1,559.18 | 1,842.66 | 2,126.15 | 2,551.38 | 2,976.61 |
| Rogiet | 869.52 | 1,014.44 | 1,159.36 | 1,304.28 | 1,594.12 | 1,883.96 | 2,173.80 | 2,608.56 | 3,043.32 |
| Shirenewton | 846.24 | 987.28 | 1,128.32 | 1,269.36 | 1,551.44 | 1,833.52 | 2,115.60 | 2,538.72 | 2,961.84 |
| St. Arvans | 844.89 | 985.71 | 1,126.53 | 1,267.34 | 1,548.97 | 1,830.60 | 2,112.23 | 2,534.68 | 2,957.13 |
| Tintern | 847.87 | 989.17 | 1,130.49 | 1,271.80 | 1,554.43 | 1,837.04 | 2,119.67 | 2,543.60 | 2,967.53 |
| Trelech | 841.43 | 981.67 | 1,121.91 | 1,262.15 | 1,542.63 | 1,823.10 | 2,103.58 | 2,524.30 | 2,945.02 |
| Usk | 897.15 | 1,046.68 | 1,196.21 | 1,345.73 | 1,644.78 | 1,943.83 | 2,242.88 | 2,691.46 | 3,140.04 |



- Ei fod yn cael ei nodi, ar gyfer blwyddyn 2018/19 bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent wedi cynnig, yn ddibynnol ar gasgliad y broses graffu lawn, y symiau canlynol mewn praeseptau a gyflwynir i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf, ar gyfer pob annedd a ddangosir uchod:

| Council Tax Band | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Proportion | 6 | 7 | 8 | 9 | 11 | 13 | 15 | 18 | 21 |
| Council Tax Charge | 159.23 | 185.76 | 212.30 | 238.84 | 291.92 | 344.99 | 398.07 | 477.68 | 557.29 |

- Wedi cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 2.3(i) a 2.4 uchod, mae'r Cyngor felly yn gosod y symiau canlynol o Dreth y Cyngor am y flwyddyn 2018/19 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a restrir isod: -

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mawrth, 6ed Mawrth, 2018 at 10.00 am

**County Council plus Town/Community Council plus Police and Crime Commissioner**

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergavenny | 1,037.27 | 1,210.14 | 1,383.02 | 1,555.90 | 1,901.66 | 2,247.41 | 2,593.17 | 3,111.80 | 3,630.43 |
| Caerwent | 1,015.76 | 1,185.04 | 1,354.34 | 1,523.63 | 1,862.22 | 2,200.79 | 2,539.39 | 3,047.26 | 3,555.13 |
| Caldicot | 1,048.20 | 1,222.89 | 1,397.60 | 1,572.30 | 1,921.71 | 2,271.10 | 2,620.50 | 3,144.60 | 3,668.70 |
| Chepstow | 1,063.81 | 1,241.10 | 1,418.41 | 1,595.71 | 1,950.32 | 2,304.91 | 2,659.52 | 3,191.42 | 3,723.32 |
| Crucorney | 999.54 | 1,166.11 | 1,332.71 | 1,499.30 | 1,832.49 | 2,165.65 | 2,498.84 | 2,998.60 | 3,498.36 |
| Devauden | 995.44 | 1,161.33 | 1,327.25 | 1,493.15 | 1,824.97 | 2,156.77 | 2,488.59 | 2,986.30 | 3,484.01 |
| Goetre | 1,004.22 | 1,171.57 | 1,338.95 | 1,506.32 | 1,841.07 | 2,175.79 | 2,510.54 | 3,012.64 | 3,514.74 |
| Grosmont | 994.94 | 1,160.75 | 1,326.58 | 1,492.40 | 1,824.05 | 2,155.68 | 2,487.34 | 2,984.80 | 3,482.26 |
| Gwehelog | 997.08 | 1,163.25 | 1,329.44 | 1,495.62 | 1,827.99 | 2,160.34 | 2,492.70 | 2,991.24 | 3,489.78 |
| Llanarth | 996.52 | 1,162.59 | 1,328.69 | 1,494.77 | 1,826.95 | 2,159.11 | 2,491.29 | 2,989.54 | 3,487.79 |
| Llanbadoc | 1,006.11 | 1,173.78 | 1,341.48 | 1,509.16 | 1,844.54 | 2,179.89 | 2,515.27 | 3,018.32 | 3,521.37 |
| Llanelly Hill | 1,018.04 | 1,187.70 | 1,357.38 | 1,527.05 | 1,866.40 | 2,205.73 | 2,545.09 | 3,054.10 | 3,563.11 |
| Llanfoist | 1,008.90 | 1,177.03 | 1,345.19 | 1,513.34 | 1,849.65 | 2,185.93 | 2,522.24 | 3,026.68 | 3,531.12 |
| Llangattock V A | 996.21 | 1,162.23 | 1,328.28 | 1,494.31 | 1,826.39 | 2,158.44 | 2,490.52 | 2,988.62 | 3,486.72 |
| Llangwm | 998.00 | 1,164.33 | 1,330.67 | 1,497.00 | 1,829.67 | 2,162.33 | 2,495.00 | 2,994.00 | 3,493.00 |
| Llangybi | 999.20 | 1,165.73 | 1,332.27 | 1,498.80 | 1,831.87 | 2,164.93 | 2,498.00 | 2,997.60 | 3,497.20 |
| Llanhennock | 1,000.11 | 1,166.78 | 1,333.48 | 1,500.16 | 1,833.54 | 2,166.89 | 2,500.27 | 3,000.32 | 3,500.37 |
| Llanover | 996.47 | 1,162.54 | 1,328.62 | 1,494.70 | 1,826.86 | 2,159.01 | 2,491.17 | 2,989.40 | 3,487.63 |
| Llantillio Croess | 995.74 | 1,161.68 | 1,327.65 | 1,493.60 | 1,825.52 | 2,157.42 | 2,489.34 | 2,987.20 | 3,485.06 |
| Llantillio Pertholey | 1,006.90 | 1,174.71 | 1,342.53 | 1,510.35 | 1,845.99 | 2,181.61 | 2,517.25 | 3,020.70 | 3,524.15 |
| Llantrissant | 1,000.49 | 1,167.23 | 1,333.98 | 1,500.73 | 1,834.23 | 2,167.72 | 2,501.22 | 3,001.46 | 3,501.70 |
| Magor with Undy | 1,033.16 | 1,205.35 | 1,377.55 | 1,549.74 | 1,894.13 | 2,238.51 | 2,582.90 | 3,099.48 | 3,616.06 |
| Mathern | 1,006.34 | 1,174.06 | 1,341.79 | 1,509.51 | 1,844.96 | 2,180.40 | 2,515.85 | 3,019.02 | 3,522.19 |
| Mitchell Troy | 997.80 | 1,164.08 | 1,330.39 | 1,496.69 | 1,829.30 | 2,161.88 | 2,494.49 | 2,993.38 | 3,492.27 |
| Monmouth | 1,032.23 | 1,204.26 | 1,376.30 | 1,548.34 | 1,892.42 | 2,236.49 | 2,580.57 | 3,096.68 | 3,612.79 |
| Portskewett | 1,006.60 | 1,174.36 | 1,342.13 | 1,509.90 | 1,845.44 | 2,180.96 | 2,516.50 | 3,019.80 | 3,523.10 |
| Raglan | 1,009.69 | 1,177.96 | 1,346.25 | 1,514.53 | 1,851.10 | 2,187.65 | 2,524.22 | 3,029.06 | 3,533.90 |
| Rogiet | 1,028.75 | 1,200.20 | 1,371.66 | 1,543.12 | 1,886.04 | 2,228.95 | 2,571.87 | 3,086.24 | 3,600.61 |
| Shirenewton | 1,005.47 | 1,173.04 | 1,340.62 | 1,508.20 | 1,843.36 | 2,178.51 | 2,513.67 | 3,016.40 | 3,519.13 |
| St. Arvans | 1,004.12 | 1,171.47 | 1,338.83 | 1,506.18 | 1,840.89 | 2,175.59 | 2,510.30 | 3,012.36 | 3,514.42 |
| Tintern | 1,007.10 | 1,174.93 | 1,342.79 | 1,510.64 | 1,846.35 | 2,182.03 | 2,517.74 | 3,021.28 | 3,524.82 |
| Trelech | 1,000.66 | 1,167.43 | 1,334.21 | 1,500.99 | 1,834.55 | 2,168.09 | 2,501.65 | 3,001.98 | 3,502.31 |
| Usk | 1,056.38 | 1,232.44 | 1,408.51 | 1,584.57 | 1,936.70 | 2,288.82 | 2,640.95 | 3,169.14 | 3,697.33 |

- Bod Mrs J. Robson, Mr M. Howcroft, Miss R. Donovan, Mrs. S. Deacy, Mrs. W. Woods a Mrs. S. Knight yn cael eu hawdurdodi dan Adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i erlyn ac ymddangos ar ran Cyngor Sir Fynwy gerbron Llys Ynadon at ddiben gwneud cais am Orchmynion Dyled mewn perthynas â Threth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig.

### 9. Adroddiadau'r Dirprwy Brif Weithredwr

#### 9.1. Cynllun Llesiant a Chynllun Ardal

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad i sicrhau bod aelodau'n deall yr heriau sy'n wynebu'r sir a'r camau sy'n cael eu cymryd ar y cyd gan y gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r rhain ac ystyried a chymeradwyo Cynllun Llesiant Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus cyn ei gyhoeddi. Rhoddwyd cyfle i'r Cyngor ystyried y Cynllun Ardal rhanbarthol drafft fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf Gwasanaethau Gofal a Llesiant.

*Gadawodd y Cynghorydd Sir P. Jones y cyfarfod am 12:30*

Gofynnodd y Cynghorydd Howarth a oedd yn bosibl, tra cymeradwyir y cynllun, i'r Cyngor gytuno bod yr EQIA yn cael ei roddi ar ddechrau'r ddogfen yn hytrach nag ar ddiwedd yr adroddiad, i ganiatáu gwell dealltwriaeth.

Cwestiynwyd paham fod ardaloedd ac eithrio Cil-y-coed, megis Cas-gwent, heb gael eu cynnwys yn yr adroddiad ynghylch prisiau tai. Cadarnhawyd y byddai'r adroddiad yn cael ei newid i adlewyrchu hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn o gwmpas mecanweithiau'r cynllun eglurodd y Prif Weithredwr bod CSF yn un o'r partneriaid ac os yw'r broses yn gweithio'n dda dros gwrs y genhedlaeth nesaf dylem yn gynyddol beidio â meddwl am y Cyngor ond mwy am deulu'r gwasanaeth cyhoeddus.

Roedd pryderon aml ynghylch diffyg cydnabyddiaeth yn yr adroddiad ynghylch gostwng tollau Pont Hafren.

Fel aelod o Bwyllgor Craffu Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus, mynegodd y Cynghorydd Howard anawsterau wrth gymeradwyo cynllun iechyd yr ardal mewn perthynas â thrafodaethau blaenorol ynghylch gofal dementia yng Nghas-gwent.

**O'i roi i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno'r argymhellion:**

**Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cynllun Llesiant, a'r Atodiad yn ei gefnogi, cyn ei gymeradwyo gan Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.**

**Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cynllun Ardal a ddaw yn gyd-destun strategol y bydd cynigion ar ofal cymdeithasol yn y dyfodol yn cael eu sylfaenu.**

## 10. Adroddiadau'r Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol, Diogelu, Iechyd a Thai

### 10.1. Comisiynu integredig a chytundeb adran ar gyfer cartrefi gofal i bobl h?n yn rhanbarth Gwent

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet adroddiad i argymell sefydlu cyllideb gyfun ranbarthol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau llety cartrefi gofal (yn yr achos hwn cartrefi gofal i bobl hŷn) rhwng Cyngor Sir Fynwy ac Awdurdodau Lleol eraill Gwent (Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).

Roedd yr adroddiad yn edrych i gyflawni'r gofyniad statudol ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) (2014) (SSWBA) sy'n dod i rym o fis Ebrill 2018

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y cynnydd wrth ddatblygu elfennau allweddol eraill sy'n ofynnol gan arweiniad Llywodraeth Cymru i gefnogi'r trefniadau cyllideb gyfun, sef contractau cyffredin a datblygu dull integredig o gomisiynu yn rhanbarth Gwent.

Cadarnhawyd nad effeithir ar y Gronfa Gofal Canolraddol. Roedd yn bryder bod y gronfa gyfun ar gyfer pobl hŷn dros 65 oed, ond gallai fod yn berthnasol i lawer o feysydd eraill.

**Penderfynodd y Cyngor gytuno'r argymhellion:**

**Cymeradwyo trefniadau'r gyllideb gyfun ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal i'w goruchwylio gan y Bwrdd Arwain Rhanbarth (BARh)**

**Cymeradwyo pwerau dirprwyedig i'r Aelod Cabinet dros Ddiogelu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd fel aelod o Gyngor Sir Fynwy o'r BARh wrth arfer y swyddogaethau hynny, ac ystyried unrhyw drefniadau penodol y mae angen eu rhoi ar waith i fodloni dyletswyddau statudol ar lefel leol a rhanbarthol.**

**Cadarnhau'r elfennau allweddol gofynnol ar gyfer y trefniadau hyn trwy ddatblygu Cytundeb Partneriaeth ffurfiol.**

**Cadarnhau goblygiadau adnoddau i'r awdurdod lleol mewn perthynas â threfniadau cyllideb gyfun a goruchwylio'r cytundebau cyllideb gyfun gan y BARh.**

## 11. Rhestr o Gynigion

### 11.1. Cynnig oddi wrth y Cynghorydd Sir Groucutt

*Mae'r cyngor hwn yn croesawu ymrwymiad y llywodraeth i fentrau ledled y byd sy'n anelu at gyfyngu ar gynhesu byd-eang, ac mae'n derbyn bod defnyddio tanwyddau ffosil yn ffactor sy'n cyfrannu'n fawr at y tymereddau sy'n codi yn y byd ac allyriadau carbon deuocsid. Mae'n nodi bod Cronfa Bensiwn Torfaen, sy'n gweinyddu'r trefniadau pensiwn ar ran Cyngor Sir Fynwy, wedi buddsoddi canran o'i gronfeydd mewn cwmnïau sy'n seiliedig ar ddefnyddio tanwydd ffosil, sef y trydydd uchaf yn y Deyrnas Unedig gyfan, a'r uchaf yng Nghymru, yn y flwyddyn ariannol 2016/17. Dangosodd y ffigurau, yn ôl adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Gyfeillion y Ddaear, fod gan y Gronfa fuddsoddiadau o dros £245 miliwn mewn cwmnïau o'r fath. Mae'r cyngor hwn yn galw ar Gronfa Bensiwn Torfaen i ddechrau tynnu'n ôl archebion o'r fath cyn gynted â phosibl.*

Eiliwyd y cynnig yn briodol.

Dywedodd y Cynghorydd Murphy y derbyniwyd ymateb gan weinyddwyr Cronfa Bensiwn Torfaen a fyddai'n cael ei ddosbarthu i'r Aelodau. Dywedodd y datganiad fod y gronfa'n croesawu'r diddordeb ac ni wnaeth, ar adeg yr arolwg, fuddsoddi £245m, y ffigur oedd £197m. Roedd y gor-ddatganiad oherwydd tybiaethau a wnaed wrth lunio'r arolwg. Byddai unrhyw newidiadau i'r gronfa yn cael eu hystyried yn ofalus, a'u gweithredu mewn ffordd fesurol a rheoledig.

Cynigiodd y Cynghorydd Feakins welliant i gynnwys "fel y gwêl yn dda" ar ddiwedd y cynnig. Hwn ddaeth yn gynnig sylweddol

**O'i roddi i bleidlais, cariwyd y cynnig sylweddol:**

***Mae'r cyngor hwn yn croesawu ymrwymiad y llywodraeth i fentrau ledled y byd sy'n anelu at gyfyngu ar gynhesu byd-eang, ac mae'n derbyn bod defnyddio tanwyddau ffosil yn ffactor sy'n cyfrannu'n fawr at y tymereddau sy'n codi yn y byd ac allyriadau carbon deuocsid. Mae'n nodi bod Cronfa Bensiwn Torfaen, sy'n gweinyddu'r trefniadau pensiwn ar ran Cyngor Sir Fynwy, wedi buddsoddi canran o'i gronfeydd mewn cwmnïau sy'n seiliedig ar ddefnyddio tanwydd ffosil, sef y trydydd uchaf yn y Deyrnas Unedig gyfan, a'r uchaf yng Nghymru, yn y flwyddyn ariannol 2016/17. Dangosodd y ffigurau, yn ôl adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Gyfeillion y Ddaear, fod gan y Gronfa fuddsoddiadau o dros £245 miliwn mewn cwmnïau o'r fath. Mae'r cyngor hwn yn galw ar Gronfa Bensiwn Torfaen i ddechrau tynnu'n ôl archebion o'r fath cyn gynted â phosibl fel y gwêl yn dda.***

**The meeting ended at Time Not Specified**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Mawrth, 6ed Mawrth, 2018 at 10.00 am**